

Gwasanaethau Anabledd, Gwasanaethau Myfyrwyr

# Canllawiau i Fyfyrwyr sy'n defnyddio Ysgrifenydd mewn Arholiadau

## Beth yw Ysgrifennydd?

Person sy'n ysgrifennu neu'n geirbrosesu atebion y mae'r myfyriwr yn eu harddweud mewn arholiad yw ysgrifennydd (Enw arall ar yr un peth yw 'Amanuensis').

## Ydw i'n gymwys i gael Ysgrifennydd?

Bydd angen i chi fod â Chynllun Cefnogi Dysgu Personol er mwyn bod yn gymwys i gael Ysgrifennydd.

## Sut ydw i'n trefnu fy mod i'n cael Ysgrifennydd?

Bydd a oes arnoch angen Ysgrifennydd neu beidio yn dibynnu ar fformat yr asesiad, er enghraifft, bydd ar rai myfyrwyr angen Ysgrifennydd wrth ateb cwestiynau ar ffurf traethawd, ond nid ar gyfer cwestiynau amlddewis.

Dylech gysylltu â'r Swyddfa Arholiadau bob semester, unwaith y bydd yr amserlenni wedi cael eu cyhoeddi, i drafod eich opsiynau, ac i sicrhau y bydd modd darparu Ysgrifennydd ar eich cyfer. Bydd y Gwasanaethau Anabledd yn anfon e-bost atoch i'ch atgoffa i wneud hyn!

Yna bydd y Swyddfa Arholiadau yn dweud wrth eich ysgol am wneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn darparu Ysgrifennydd i chi ym mhob arholiad.

## Cyn yr Arholiad

- Dylech ddisgwyl bod eich Ysgrifennydd yn gyfarwydd â'r pwnc a'r eirfa a bod ganddynt lawysgrifen daclus a darllenadwy, neu, os defnyddir cyfrifiadur, dylent fod yn fedrus wrth eirbrosesu.
- Dylech gael sesiwn ymarfer fer cyn dechrau cyfnod yr arholiadau. Dylai'r sesiwn honno fod yn ddigon hir i roi cyfle i chi ymarfer arddweud ateb arholiad 'nodweddiadol'.
- Fel arfer, mae'n rhesymol i'r Ysgrifennydd ofyn i chi sut mae sillafu enwau anghyffredin. Fodd bynnag, os oes gennych ddyslecsia, ac/neu wahaniaeth

dysgu penodol arall efallai na fydd hynny'n briodol. Mae'r sesiwn ymarfer yn gyfle i chi drafod beth mae arnoch ei angen a beth rydych chi'n ei ffafrio, gan gynnwys atalnodi a sillafu. Efallai y byddwch eisiau dod â'ch Cynllun Cefnogi Dysgu Personol gyda chi.

- Dylech gael gwybod â pha aelod staff i gysylltu os bydd unrhyw broblemau'n codi yn ystod yr arholiad, er enghraifft, pe bai diffyg cyfathrebu. Fel arfer, dyma'r person yn yr ysgol a fu'n gyfrifol am y trefniadau.

## Yn Ystod yr Arholiad

- Cofiwch gyrraedd mewn da bryd!
- Ni ddylai defnyddio Ysgrifennydd beri mantais nac anfantais i chi.
- Ni fydd eich Ysgrifennydd yn rhoi cymorth ffeithiol i chi nac yn cynnig unrhyw awgrymiadau
- Bydd eich ysgrifennydd yn ysgrifennu neu'n teipio atebion yn union fel y cawsant eu harddweud.
- Fe gânt, os gofynnwch iddynt, ddarllen yr hyn sydd wedi cael ei gofnodi a newid y deunydd a gofnodwyd ar eich cais chi.
- Byddant yn llunio neu'n ychwanegu mapiau, diagramau, graffiau a thablau yn unol yn hollol â'ch cyfarwyddiadau chi.
- Fel arfer, caniateir 25% o amser ychwanegol i chi ar gyfer pob arholiad (ac amser i argraffu ar ddiwedd yr arholiad, os defnyddir cyfrifiadur).

## Cwestiynau?

Bydd y Swyddfa Arholiadau ([arholiadau@bangor.ac.uk](mailto:arholiadau@bangor.ac.uk)) neu Gynghorydd o'r Gwasanaeth Anabledd ([gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk](mailto:gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk)) yn gallu ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych mewn perthynas â darparu Ysgrifenydd.

## Sylwer:

Yn achos ymgeiswyr sydd angen Darllenydd ac Ysgrifennydd, gall yr un person gyflawni'r ddwy swyddogaeth.